

Dr Andrew Goodall  
Ysgrifennydd Parhaol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

09 Rhagfyr 2022

Annwyl Mr Isherwood

## **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Tachwedd 2022 ar ôl sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 ar 16 ac 19 Hydref 2022. Croesawaf y sesiwn graffu adeiladol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ac mae'n bleser gennyf ddarparu ymatebion i'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani fel y'i nodir isod.

Mae'r atodiadau canlynol yn ymateb yn unol â hynny i:

- Atodiad 1 – Cymorth COVID-19 i Fusnesau
- Atodiad 2 – Gwariant COVID-19 Arall
- Atodiad 3 – Rhagor o wybodaeth yr ymrwymwyd i'w darparu a phwyntiau ychwanegol y mae'r Pwyllgor yn dymuno ceisio cael eglurder arnynt.



**BUDDSODDWYR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 6935  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Hyderaf fod yr wybodaeth ychwanegol hon yn helpu'r pwyllgor mewn unrhyw ystyriaethau terfynol a bod y sesiynau tystiolaeth a fynychwyd gennym mewn perthynas â chyfrifon 2020-21 yn ddefnyddiol.

Yn gywir

*Yours,  
Andrew Goodall*

**Dr Andrew Goodall**  
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary  
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



**BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

## Atodiad 1: Cymorth COVID-19 i fusnesau:

### Monitro ar ôl Cwblhau

**1.1 A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau'r gwaith monitro ar ôl cwblhau ar gyfer Camau 1 a 2? Hoffem weld y sefyllfa bresennol yn cael ei chymharu â'r sefyllfa ym mis Gorffennaf, fel y'i nodir ym Memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol. Os nad yw hwn wedi'i gwblhau, a oes gennych ddyddiad terfyn o ran disgwyl iddo gael ei gwblhau.**

Y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2022 (Memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru)

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd y timau Monitro ar ôl Cwblhau ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) wedi gwneud y canlynol:

- cyflwyno 9,094 o arolygon i ficro fusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chafwyd ymateb gan 3029 (33%).
- cyflwyno 2,527 o arolygon i fusnesau bach a chanolig, a chafwyd ymateb gan 1,370 (54%) – nid oedd y gwaith Monitro ar ôl Cwblhau mwy cynhwysfawr ar gyfer y camau hyn wedi cael ei gwblhau.
- cyflwyno ceisiadau am wybodaeth i 52 o fusnesau mawr, a chafwyd ymateb gan 41 (79%).

Ar ôl cynnal peilot pellach, roedd y gwaith Monitro ar ôl Cwblhau ar gyfer cam 3 yn mynd rhagddo ac roedd cynlluniau i roi'r trefniadau ar waith ar gyfer camau cymorth diweddarach dros y haf.

Y sefyllfa ym mis Tachwedd 2022

Ym mis Tachwedd 2022, mae'r timau Monitro ar ôl Cwblhau ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno 9,094 o arolygon i ficro fusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chafwyd ymateb gan 3029 (33%).
- Cyflwyno 1,257 o arolygon i fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chafwyd ymateb gan 421 (33%).
- Cyflwyno 1,270 o geisiadau am wybodaeth Monitro ar ôl Cwblhau fwy cynhwysfawr i fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2 ac ar hyn o bryd mae 599 o ymatebion yn cael eu hystyried ac mae 466 o achosion wedi cael eu cwblhau (cyfradd gwblhau o 36%).
- Cyflwyno ceisiadau am wybodaeth i 52 o fusnesau mawr a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, ac mae 46 o achosion wedi'u cwblhau (88%).



**BUDDSODDWR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Yn ogystal â Chamau 1 a 2

- Mae Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd (Tachwedd 2020) yn mynd rhagddo a chafodd 1,205 o arolygon eu cyflwyno, a chafwyd ymateb gan 690 (57%). Mae 804 o ddyfarniadau lle mae angen gwaith Monitro ar ôl Cwblhau mwy cynhwysfawr a chyflwynwyd ceisiadau am wybodaeth i 342 o fusnesau hyd at fis Tachwedd 2022 a chafodd 66 o achosion eu cwblhau.
- Dechreuodd camau 4-7 y Gronfa Cadernid Economaidd (Ionawr-Awst 2021) yn ystod haf 2022, a chyflwynwyd 3,866 o arolygon, a chafwyd ymateb gan 1,248 (32%) a chyflwynwyd 236 o geisiadau i fusnesau wneud gwaith Monitro ar ôl Cwblhau mwy cynhwysfawr. Cafodd 4 achos eu cwblhau.

Caiff gweithgarwch Monitro ar ôl Cwblhau y Gronfa Cadernid Economaidd ei reoli ar sail portffolio treigl er mwyn sicrhau y caiff y momentwm ei gynnal ac er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

Mae'n anodd pennu dyddiad cau ar gyfer y gweithgarwch hwn, gan fod cwblhau'r broses yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflymder ac ansawdd yr ymatebion a geir gan y busnesau. Mewn rhai achosion, nid ydym wedi cael ymateb eto er gwaethaf nifer o geisiadau.

### **1.2A allwch roi manylion yr amserlenni diwygiedig ar gyfer monitro ar ôl cwblhau ar gyfer cynlluniau o Gam 3 ymlaen, gan gynnwys o ran amseroedd dechrau a gorffen a gynlluniwyd?**

Fel y nodwyd yn 1.1 uchod, mae cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd (Tachwedd 2020) yn mynd rhagddo. Mae'n anodd pennu dyddiad cau ar gyfer y gweithgarwch hwn. Megis dechrau y mae'r gwaith ac fel rowndiau cynharach y gweithgarwch Monitro ar ôl Cwblhau, mae cwblhau'r broses yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflymder ac ansawdd yr ymatebion a geir gan y busnesau.



**BUDDSODDWR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

## Gwerthusiad

### 1.3 Sut rydych chi wedi penderfynu ar y trefniadau gwerthuso ar gyfer eich cymorth COVID-19 i fusnesau; gan gynnwys, beth rydych chi wedi'i ddefnyddio o ran dulliau gweithredu presennol i werthuso cymorth busnes, a beth rydych chi wedi gorfod ei ddatblygu?

Datblygodd Llywodraeth Cymru weithgor i ddatblygu'r trefniadau gwerthuso ar gyfer cymorth COVID-19 i fusnesau. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys y tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi sy'n gyfrifol am waith ymchwil a dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru.

Roedd methodoleg y gwerthusiad yn seiliedig ar fethodolegau llwyddiannus blaenorol a ddefnyddiwyd gan y tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r tîm Entrepreneuriaeth. Roedd y fethodoleg yn cynnwys dadansoddi data gweinyddol, arolwg buddiolwyr yn ogystal ag elfen o arolwg ychwanegol er mwyn canfod gwybodaeth am oroesedd a diogelu cyflogaeth yn ogystal â meysydd eraill.

### 1.4 Mae Dirnad Economi Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad gwerthuso hyd yma (ym mis Rhagfyr 2020 ac ym mis Ebrill 2022). Sut yr ydych yn gweithredu unrhyw argymhellion y mae wedi'u gwneud ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, ac a ellid dwyn sylw'r Pwyllgor i adroddiadau gwerthuso yn y dyfodol pan gânt eu cyhoeddi?

Mae Dirnad Economi Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad hyd yn hyn a bydd yn cyhoeddi trydydd adroddiad erbyn mis Ionawr 2023.

Mae penawdau'r ail adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno (yn gyffredinol) fod cymorth yr un mor bwysig â chynlluniau ffyrlo.
- Roedd 89% (yn cytuno'n gyffredinol) fod cymorth yn gweithio'n dda i ddiogelu cyflogaeth mewn busnes.
- roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno fod y cymorth yn gweithio i ddiogelu cyflogaeth yn y busnes.
- Ar adeg yr arolwg, roedd 95% o'r busnesau yn masnachu o hyd.

Nododd casgliad yn yr ail adroddiad penodol y canlynol, y disgwyliwn y byddwn yn ei dderbyn:



**BUDDSODDWR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

- "Mae elfen bellach o ymchwil yn y dyfodol a fydd angen ystyried tueddiadau goroesi a thwf cymharol sefydliadau a gynorthwyir. Mae diddordeb arbennig, mewn dadansoddiad diweddarach, mewn nodi'r tueddiadau goroesi mewn busnesau a gynorthwyir gan gymorth Llywodraeth Cymru o gymharu â busnesau nad oeddent yn fuddiolwyr o'r un gymorth hwn.
- Yn ddelfrydol, cynhelir y dadansoddiad hwn o fewn fframwaith gwybodaeth cyfrifon cwmni a gyda'r angen i aros nes bod cofnodion ariannol ar gael ar gyfer y cyfnodau 2020- 21".

Mae'r tîm ymchwil yn ystyried sut y gellir ymgymryd â hyn mewn adroddiadau penodol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â gwerthusiad y Gronfa Cadernid Economaidd.

Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor pan gaiff adroddiadau gwerthuso eu cyhoeddi yn y dyfodol.

### **1.5 Pa wersi ehangach rydych chi wedi'u dysgu o waith gwerthuso a wnaed hyd yma i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gymorth ariannol i fusnesau yn y dyfodol?**

Mae cyfathrebu â'r busnesau yr effeithiwyd arnynt yn holl bwysig. Datblygwyd y gwaith hwn drwy gydol yr amrywiol rowndiau cyllido ac mae cyfathrebu'r meini prawf cymhwysra, y lefelau cyllido, y canllawiau cam wrth gam a thryloywder o ran hynt ceisiadau ar gam cynnar yn allweddol.

Roedd defnyddio gwiriadau Deallusrwydd Artiffisial yn adnodd effeithiol wrth nodi ceisiadau nad oeddent o bosibl yn gymwys, a dylid ehangu'r broses hon ar gyfer cynlluniau cyllid grant yn y dyfodol.

Pwysigrwydd gwaith tîm, dysgu parhaus ac ansawdd gweision cyhoeddus ledled Cymru a all gynhyrchu rhaglenni mawr yn gyflym ac yn gywir.



**BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

## Atodiad 2: Gwariant COVID-19 arall

### 2.1 Sut rydych chi'n cael sicrwydd ynglŷn ag effaith y grantiau COVID-19 i sefydliadau eraill ar wahân i awdurdodau lleol, ac yn gwerthuso'r effaith honno, gan gynnwys y grantiau COVID-19 hynny a weinyddwyd gan sefydliadau eraill, fel Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Trydydd Sector, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)?

Roedd y grantiau sylweddol eraill ar wahân i'r rhai i awdurdodau lleol a thrwy Gymorth COVID-19 i Fusnesau ar gyfer y Trydydd Sector a'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.

## Y Trydydd Sector

Cefndir

Roedd Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector gwerth tua £42 miliwn yn cynnwys nifer o elfennau:

- Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol – er mwyn helpu gwirfoddolwyr i ymateb i'r effaith gychwynnol
- Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol – er mwyn helpu gwirfoddolwyr i ymateb i effeithiau tymor hwy y pandemig.
- Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector – yn helpu sefydliadau'r sector gwirfoddol i ailfuddsoddi ar gyfer twf wrth ddod allan o'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 a thu hwnt.

Sicrwydd

Cafodd cronfeydd y Trydydd Sector eu hadolygu gan Archwilio Cymru. Roedd yr adolygiad hwn yn ymdrin ag adroddiadau a dogfennau eraill sy'n darparu tystiolaeth bod rheolaethau ar waith y bwriedir iddynt dargedu cyllid, rheoli risgiau ariannol a sicrhau gwerth am arian. Ni nodwyd unrhyw faterion gan yr adolygiad hwn na chan yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr adran archwilio mewnol.

Effaith cyllid

Roedd monitro effaith a gofynion adrodd oll yn rhan annatod o Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector.



**BUDDSODDWYR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Mae CGGC wedi cyhoeddi adroddiadau effaith ar y Gronfa Argyfwng a'r Gronfa Adfer. Ceir manylion yr adroddiadau hyn ar dudalen Cronfa Argyfwng a Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol – CGGC. O ran y Gronfa Gwydnwch, roedd yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno adroddiadau ar gynnydd eu prosiectau i CGGC ar ôl tri mis ac ar ôl 12 mis.

Yn ogystal, darparodd CGGC ddata drwy gydol y pandemig, a hynny bob dydd yn ystod y don gyntaf. Diolch i'r data hyn, llwyddodd swyddogion i asesu effaith a gwaith gyda chyllidwyr eraill er mwyn sicrhau bod modd cefnogi'r sefydliadau hynny a oedd yn cefnogi'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf.

## Y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Cefndir

Roedd y £108m a ddosbarthwyd drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi'i rannu'n dri maes allweddol:

- Cyllid o dan y Gronfa Adferiad Diwylliannol a ddosbarthwyd gan Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y cymorth hwn ar gael i'r sector creadigol, diwylliannol a digwyddiadau a'u cyflenwyr technegol, ac i sefydliadau treftadaeth.
- Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyllid er mwyn rhoi cymorth tebyg i sefydliadau a oedd yn gweithredu ym maes cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfunol, celf digidol.
- Lluniwyd Cronfa Gweithwyr Llawrydd benodol hefyd er mwyn helpu unigolion yn y sector yr oedd y pandemig wedi effeithio arnynt. Roedd y gronfa ar agor i weithwyr llawrydd yn is-sectorau'r celfyddydau, y diwydiannau creadigol, digwyddiadau celfyddydol a threftadaeth, diwylliant a threftadaeth, y mae eu gwaith yn esgor ar ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol. Fe'i gweinyddwyd drwy awdurdodau lleol yng Nghymru.

Roedd gan y tri chynllun strwythurau llywodraethu unfath o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Cynhaliwyd adolygiadau o'r ddwy rownd cymorth cyntaf. Roedd cynrychiolydd o Gyngor Celfyddydau Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd grŵp llywio'r gwerthusiad. Roeddent yn cynnwys ymatebion gan randdeiliaid. Rydym yn ystyried pryd y bydd yn bosibl cynnal adolygiad o drydedd rownd y cymorth a gynhaliwyd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2021-22.



**BUDDSODDWR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>



Nododd canlyniadau'r adolygiad o rowndiau 1 a 2 o'r cymorth y canlynol:

- *Sefydliadau Diwylliannol.* Cafwyd cyfanswm o 2,013 o geisiadau ar gyfer Rowndiau 1 a 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol a llwyddodd cyfanswm o 1,211 o sefydliadau (60 y cant) i gael cymorth cyllid grant (Tabl 5.1). Cafwyd ceisiadau gan 1,517 o sefydliadau unigol, y cymeradwywyd 871 ohonynt. Gwnaeth tua 503 o fusnesau geisiadau pellach, a llwyddodd 242 ohonynt i sicrhau cyllid yn y ddwy rownd.
- Y Gronfa Gweithwyr Llawrydd. Dengys y data gweinyddol o ddwy rownd y Gronfa Gweithwyr Llawrydd a ddosbarthwyd gan awdurdodau lleol fod 4,157 o weithwyr llawrydd wedi cael cymorth ac y dyfarnwyd cyfanswm gwerth grantiau o £10.39 miliwn (3,425 yn Rownd 1 a 732 yn Rownd 2). Dengys dadansoddiad o'r data hefyd fod 995 o weithwyr llawrydd wedi cael cymorth cyllid yn y ddwy rownd gyllido.

Defnydd o gyllid y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Datgelodd adborth gan randdeiliaid mai er mwyn diogelu swyddi, sefydliadau a'r sector y defnyddiwyd y Gronfa. I rai, roedd cysylltiad agos rhwng diogelu asedau ac adeiladu â'r rhesymeg ehangach, ond roedd eraill o'r farn fod y gronfa hefyd yn cynnig ffordd o gefnogi cymunedau estynedig.

Pan ofynnwyd iddynt nodi sut roeddent wedi defnyddio eu cyllid, yr ymateb mwyaf cyffredin gan y sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg oedd eu bod wedi defnyddio'r grant i dalu biliau ac i ymdrin â gorbenion (78 y cant) wedi'i ddilyn gan gyflogau staff (60 y cant) (Ffigur 6.1). Fodd bynnag, defnyddiodd ychydig dros hanner y sefydliadau a gafodd grant y cyllid a gafwyd i ddiwygio eu model busnes neu eu gwasanaethau (55 y cant) neu i fuddsoddi mewn cyfarpar (54 y cant).

Effaith y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Dangosodd adborth gan randdeiliaid a gafodd grant pe na fyddent wedi cael y cyllid hwnnw y byddai ychydig dros hanner (52 y cant) o'r ymatebwyr wedi gorfod cau.

Yn ogystal, roedd 38 y cant o'r rhanddeiliaid a roddodd adborth o'r farn y byddent wedi gorfod diswyddo staff heb y Gronfa.



**BUDDSODDWR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

## Casgliadau o'r adolygiad

Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi helpu i liniaru effeithiau negyddol y pandemig ac mae'n dal i wneud hynny. Mae'r cyllid wedi diogelu cronfeydd ariannol wrth gefn ac incwm, wedi galluogi ac wedi hwyluso arloesedd, wedi datblygu ac wedi atgyfnerthu rhwydweithiau a threfniadau cydweithio ac wedi helpu sefydliadau a gweithwyr llawrydd fel ei gilydd i adennill eu hyder yn eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol wrth i Gymru adfer ar ôl COVID-19.

Llwyddodd dyluniad a threfniadau cyflwyno'r Gronfa i gyflawni cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod y cyllid ar gael yn ddigon cyflym o ystyried yr argyfwng ariannol a oedd yn wynebu llawer o sefydliadau, ond gan ddiogelu pwrs y wlad ar yr un pryd.

Dangosodd adborth gan randdeiliaid fod y Gronfa wedi'i chynllunio'n effeithiol ar y cyfan, gan sicrhau eglurder a mynediad hawdd. Teimlwyd bod cyflymder wrth ddarparu'r cyllid wedi bod yn gryfder allweddol. At hynny, mae'r ymgysylltu a fu rhwng y sector, cyrff cyhoeddus a'r Llywodraeth wedi bod yn ganlyniad arall cadarnhaol nas rhagwelwyd. Mae'r lefel hon o ymgysylltu a chydweithio bellach yn cynnig cyfleoedd i ganolbwyntio ar anghenion cymorth tymor hwy ac anghenion cymorth strwythurol yn y sector diwylliannol yng Nghymru wrth i'r wlad ddechrau adfer ac ailadeiladu.

## **2.2 Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Trydydd Sector i fynd i'r afael â'r 'materion i'r dyfodol' a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso COVID-19, gan gynnwys adolygu'r dull cyllido cyffredinol ar ôl y pandemig?**

Roedd y materion allweddol i'r dyfodol a nodwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â Chymorth ac Ymgysylltu.

### O ran Cymorth

Bu Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn gweithio gyda Chanolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi rheolwyr grant i gynnig 3+3 mlynedd o gyllid lle y bo'n briodol.



**BUDDSODDWYR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Mae ein grant Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn darparu cyllid craidd i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru er mwyn cynnig seilwaith cymorth i'r trydydd sector. Ar gyfer 2022-23, rydym wedi cynyddu llinell sylfaen y grant hwn i £6.98m, sef cynnydd o 10% o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig.

Rydym hefyd, am y tro cyntaf, wedi rhoi ymrwymiad grant o dair blynedd i bartneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru er mwyn ei galluogi wedyn i ymgymryd â gwaith cynllunio tymor hir, ond gan gadw staff a sgiliau ar yr un pryd. Bydd yn golygu y gellir parhau i ddatblygu'r partneriaethau a'r cydberthnasau tymor hwy (gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd) a oedd mor bwysig wrth ymateb i'r pandemig, ac i brosiectau gael eu cynnal dros sawl blwyddyn gan arwain at well canlyniadau a dysgu.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol becyn cymorth £2.2m i'r sector yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys £1m ychwanegol yn 2024-25 i Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n cynnwys CGGC a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol, a £1.2m dros hon a'r tair blwyddyn ariannol nesaf i bartneriaeth Newid (o dan arweiniad CGGC, Coop Cymru a Promo Cymru) i barhau i gefnogi sgiliau digidol yn y sector gwirfoddol.

## O ran Ymgysylltu â Phartneriaid

Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd ag amrywiaeth o gyllidwyr trydydd sector gan gynnwys Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfarfodydd hyn, a sefydlwyd yn ystod y pandemig, yn sicrhau na cheir unrhyw achosion o ddyblygu ymdrech ac yn nodi bylchau, ac a defnyddiwyd i lywio ein hymateb o ran cefnogi'r rheini sy'n ffoi'r gwrthdaro yn Wcráin, yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar yr argyfwng costau byw.

Ar y cyd â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, rydym wedi cydgynhyrchu Cynllun Adfer ar ôl COVID-19 i'r Trydydd Sector sy'n nodi ein blaenoriaethau ar y cyd, ac rydym yn gweithio gyda'r sector a phartneriaid eraill i roi'r cynllun ar waith. Mae'r cynllun yn cynnwys tair ffrwd waith allweddol – Cymorth, Cydberthnasau a Gwirfoddoli. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o Bolisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru a gwaith i ddatblygu Polisi Cymunedol, ac adolygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Gyda'i gilydd, bydd y darnau hyn o waith yn creu amgylchedd a fydd yn galluogi sefydliadau'r trydydd sector i fod yn fwy cynaliadwy.

Y gwaith hwn fydd ein ffocws ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad, gan ddangos cynnydd yn erbyn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 'barhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau'.



**BUDDSODDWYR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289  
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales  
CF10 3NQ Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

**Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth yr ymrwymwyd i'w darparu a phwyntiau ychwanegol y mae'r Pwyllgor yn dymuno ceisio cael eglurder arnynt.**

### **3.1 Copi o'r fframwaith telerau ac amodau y cytunwyd arno rhwng Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru ynghylch eich cyflogaeth fel Ysgrifennydd Parhaol.**

Gweithiodd tîm Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru gyda'u cydweithwyr yn Swyddfa'r Cabinet ar fframwaith telerau ac amodau'r Ysgrifennydd Parhaol sydd bellach yn weithredol. Mae'n nodi rolau, cyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau ar draws pob rhan o'r swydd yn glir, gan adlewyrchu cyd-destun Llywodraeth Cymru a sicrhau bod y ddau sefydliad yn cael eu cynnwys yn briodol mewn materion yn y dyfodol.

